

CYNGOR GWYNEDD

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD	11 CHWEFROR 2016
TEITL	HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R DIWEDDARIAD O HUNANASESIAD TREFNIADAU LLYWODRAETHU'R CYNGOR I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH
AWDUR	DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG
GWEITHREDIAD	YSTYRIED Y CYNNWYS, CYNNWYS SYLWADAU ARNO, A CHYMERADWYO'R ASESIAD

1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?

- 1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel “y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu”, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:
- **Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am gynnwys yr hunanasesiad o'r 31 elfen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor (yn Atodiad 1) ac yn arbennig y sgoriau “Impact” ac “Effeithiolrwydd” sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.**

2. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

- 2.1 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi adolygu'r hunanasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2015. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg.
- 2.2 Mae diagram sy'n cynnwys y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd, ac eglurhad naratif fanwl, wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

3. NEWIDIADAU YN Y SGORIAU ERS YR HUNANASESIAD DIWETHAF YM MAI 2015






Sgoriau Impact

3.1 Nid oedd asesiad y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn awgrymu fod angen newid y sgoriau impact, gan fod rhain yn parhau'n gyson ers Mai 2015 (dyddiad yr adolygiad blaenorol). Nodwyd, fodd bynnag:

- Y dylid newid y Pennawd “Gwerthoedd y Cyngor” i “Diwylliant y Cyngor”, ond gan gadw'r un sgor impact uchel.
- Y pennawd “Y Gyfundrefn Cyflawni” wedi newid i “Rheoli Perfformiad” i adlewyrchu newidiadau i'r trefniadau mewnol.
- Er eglurdeb, mae'r pennawd “Llythyr Blynyddol yr Archwiliwr Allanol” wedi ei newid i “Ymateb i Adroddiad Blynyddol yr Archwiliwr Allanol” er mwyn bod yn glir mai ymateb y Cyngor i'r adroddiad (nid llythyr) sy'n ffurfio rhan o'n trefniadau llywodraethu mewnol, nid yr adroddiad ei hun.

Sgoriau Effeithiolrwydd

3.2 Mae 5 allan o 31 o'r sgoriau effeithiolrwydd wedi newid ers yr hunanasesiad diwethaf ym Mai 2015. Ceir crynodeb o'r newidiadau isod:

Diwylliant y Cyngor (Gwerthoedd y Cyngor yn flaenorol)	 Gwell a 3 i 4
Ymgysylltu	 Gwell a 4 i 5
Llywodraethu Gwybodaeth	 Gwell a 4 i 5
Rheoli Perfformiad (Y Gyfundrefn 'Cyflawni' yn flaenorol)	 Gwell a 4 i 5
Y Drefn Craffu	 Dirywio o 5 i 3

4. BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

4.1 Canlyniad y newidiadau a ddisgrifir uchod yw'r addasiadau canlynol i flaenoriaethau llywodraethu'r Cyngor:

- Llywodraethu Gwybodaeth wedi symud o'r coch i'r oren
- Rheoli Perfformiad wedi symud o'r coch i'r oren
- Ymgysylltu wedi symud o'r coch i'r oren
- Y Drefn Craffu wedi symud o'r oren i'r coch

4.2 Felly, yr Elfennau Blaenoriaeth Uchel lawn (coch) ydi:

- Diwylliant y Cyngor
- Y Drefn Craffu

4.3 Yr Elfennau Blaenoriaeth Uchel (oren) ydi:

- Rheoli Perfformiad
- Ymgysylltu
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig
- Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff
- Cynllun Strategol y Cyngor
- Trefniadau Rheoli Risg
- Cydberthynas Aelodau
- Rhaglen Arweinyddiaeth
- Ymateb i Adroddiad Blynyddol yr Archwiliwr Allanol

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am gynnwys yr hunanasesiad o'r 31 elfen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor (yn Atodiad 1) ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.